

Cyfarfod Archif Menywod Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Unwaith eto daeth tyrfa frwdfrydig i gyfarfod Archif Menywod Cymru ym Mhabell y Cymdeithasau yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod a'r Gororau. Cadeiriwyd y sesiwn gan Dr Sian Rhiannon Williams ac eleni Dr Dinah Evans o Brifysgol Bangor oedd y siaradwraig wadd. Fe ddiwanodd ei gwrandawyr gyda'i hanesion rhyfeddol am gyfraniad a gwaith Cymraesau o bob math o gefndiroedd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, llawer yn nyrsys, rhai yn llenwi swyddi milwyr, eraill yn y Fyddin Dir, a mwy fyth yn y ffatrioedd arfau. Drwy gyfrwng darluniau ar y sgrin fawr daeth yr arwresau hyn yn fyw o flaen ein llygaid, gan sobreiddio ac addysgu'r gynulleidfa am weithgareddau cymaint o fenywod annibynnol, mentrus, ond anghofiedig, oedd yn gwbl abl i ysgwyddo cyfrifoldebau mewn argyfwng a hynny dros gan mlynedd yn ôl.

Yn ail hanner y cyfarfod, ychwanegwyd at hanes coll y Gymraes gan yr hanesydd Catrin Stevens a soniodd am brosiect newydd cyffrous AMC, sef darganfod meini coffa a cherrig beddau menywod o Gymru a fu farw yn ystod y rhyfel wrth gyflawni swyddi fel nyrsys mewn gwledydd tramor, neu a gafodd eu lladd wrth weithio ar longau fel stiwardesau, neu yn nes gartref mewn ffrwydradau mewn ffatrioedd arfau. Mae'r prosiect hefyd yn cwmpasu casglu ffotograffau, dogfennau a'u hanesion cefndirol. Roedd Catrin wrth ei bodd gyda'r ymateb gan fod mwy nag un wedi dod ati ar y diwedd gyda gwybodaeth werthfawr ar gyfer y prosiect hwn.

Mae'n ymddangos bod cynnal cyfarfod AMC yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ei sefydlu erbyn hyn fel digwyddiad blynyddol. Y flwyddyn nesaf fe'i cynhelir yn Sir Fynwy yn agos at y Fenni. Mae croeso i unrhyw un o'r ardal ddod i ymuno yn y trefniadau, neu anfon syniadau am bwnc perthnasol a fydd yn cyfrannu deunydd newydd sbon i archifau hanes menywod Cymru. Aelodau'r is-bwyllgor hwn ar hyn o bryd yw Catrin Stevens, Sian Rhiannon Williams, Luned Meredith a Rosanne Reeves.

Rosanne Reeves

Stondin Llyfrau i godi arian yn y Gynhadledd yn Abertawe

Yn ystod Cynhadledd y Fenni yn 2012 cawsom stondin llyfrau ail-law lwyddiannus iawn. Mae'n siŵr eich bod i gyd yn barod am un arall nawr - felly ewch ati i glirio'ch silffoedd ar fyrder. Dewch â nhw gyda chi i'r Gynhadledd. Os oes gennych ormod i'w cario cysylltwch â Jenny Sabine os gwelwch yn dda. (j.sabine367@btinternet.com)



Os nad ydych chi wedi archebu lle ar gyfer y Gynhadledd eto, ewch i dudalen hafan y wefan ac fe welwch y rhaglen a'r ffurflen archebu lle yno.



Betsy Cadwaladr – cywiriad.

Yng Nghylchlythyr Mehefin dwedwyd bod y copi o olygiad gwreiddiol Jane Williams yn cael ei gadw yn adran Llyfrau Prin Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mewn gwirionedd y llyfrgell lle bu Gwyneth Tyson Roberts yn brwydro yn erbyn goleuadau sensitif i symud oedd Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth. Nid oes gan y Llyfrgell Genedlaethol gopi o'r golygiad gwreiddiol. Ymddiheuriadau i'r ddau sefydliad.

Betsy Cadwaladr: A Balaclava Nurse, by Jane Williams, golygwyd gan Gwyneth Tyson Roberts gyda chyflwyniad gan Deirdre Beddoe, Gwasg Honno, pris £11.99.

PAM YMUNOCH CHI Â'R ARCHIF?

Pam ymunoch chi ag Archif Menywod Cymru? Pam ymunes i? Pam wnaeth pob un ohonom?

Mae'n rhaid bod sawl rheswm, gan ddechrau gyda diddordeb cyffredinol yn sut y bu menywod yn byw yng Nghymru. Cwestiwn arall: beth ydych chi eisiau o'ch aelodaeth? Y Cylchgrawn chwarterol hwn, y cyfle i ddod i'n Cynhadledd Flynyddol - penwythnos difyr bob amser - a digwyddiadau eraill o bryd i'w gilydd, teimlad eich bod yn perthyn i grŵp o bobl o gyffelyb anian? Ydy hynny'n ddigon? Os felly, popeth yn iawn, rydym yn gwerthfawrogi'ch aelodaeth yn fawr ac mae'ch diddordeb yn profi bod yr Archif yn cyflawni un o'i hamcanion, sef codi ymwybyddiaeth am hanes menywod yng Nghymru. Ond efallai yr hoffech chwarae rhan fwy rhagweithiol yng ngwaith yr Archif ond nad ydych yn gwybod sut i wneud hynny.

Rwy'n ysgrifennu hwn i egluro sut y gall aelodau a hoffai helpu'r Archif wneud hynny, mewn nifer o ffyrdd ymarferol, p'run ai trwy roi ychydig oriau i helpu bob nawr ac yn y man neu trwy gynnig ymrwymiad rheolaidd. Weithiau'r cyfan rydyn ni ei angen yw cyngor gan rywun â phrofiad neu wybodaeth ymarferol.

Dyma rai agweddau ar ein gwaith lle byddem yn gwerthfawrogi help, cyngor neu awgrymiadau o'r fath.

Trefniadaeth: bod yn aelod o'r pwyllgor, yn ymgynghorydd i'r pwyllgor, helpu gyda threfnu cynhadledd a digwyddiadau eraill; gwirfoddoli gyda phrosiectau amrywiol AMC/WAW, e.e. y prosiect cyfredol ar y Rhyfel Byd Cyntaf;

Cyhoedduswydd: cyngor ynglŷn â chynllunio taflenni neu ddefnyddiau eraill; dosbarthu taflenni, a.y.b. siarad neu ysgrifennu am yr Archif.

Archifau ac Ymchwil: Gwnewch ffrindiau â'ch gwasanaeth archifau lleol - helpwch i ddiweddarau'r rhestr o gasgliadau AMC/WAW; darganfod pa gasgliadau archifol eraill am fenywod sydd ar gael. Ydych chi'n adnabod unrhyw un â phapurau personol y dylid eu cadw neu brofiadau neu atgofion personol y dylid eu recordio? Efallai fod rhai gennych chi? Am gyngor ynglŷn â sut i'w rhoi ar adnau neu eu recordio, cysylltwch â'n Swyddog Casgliadau neu unrhyw aelod o'r pwyllgor ar collections@womensarchivewales.org

Codi arian: Does dim incwm, ac eithrio tanysgrifiadau'n haelodau, ambell rodd a chymorth grantiau am brosiectau penodol, gan AMC/WAW. Oes gennych chi brofiad codi arian? Allech chi helpu i wneud hynny?

Recriwtio: Ymddengys bod ein haelodau yn glystyrau, yn enwedig o gwmpas Caerdydd, Casnewydd, Bangor ac Abertawe. Wrth gwrs mae croeso i aelodau eraill o'r ardaloedd hyn, ond i sicrhau bod yr Archif yn cynrychioli Cymru fel cenedl yn llawn, mae angen mwy o aelodau o'r gogledd-ddwyrain, o'r de-orllewin ac o ardaloedd mawr o ganolbarth a gorllewin Cymru. Y ffordd orau i wneud hynny yw o ben i ben, felly os ydych chi'n byw yn yr ardaloedd hyn, gofynnwch i eraill ymuno â ni. Os ydych chi angen taflenni recriwtio, cysylltwch â ni ar info@womensarchivewales.org neu ffoniwch 07581 001 139.

Sgiliau proffesiynol: Oes gennych chi gymwysterau neu sgiliau proffesiynol arbennig y byddech yn barod i'w rhannu â'r Archif? Byddai'n ddefnyddiol gwybod am rywrai y gallem gysylltu â nhw petai problem neu angen arall yn codi.

Diddordebau arbennig: Oes gennych chi hobi neu ddiddordeb arbennig, boed academiaidd neu beidio, a allai fod yn bwnc prosiect ymchwil, sgwrs yn y gynhadledd neu erthygl ar gyfer y Cylchlythyr. Er enghraifft cwrddais i â chwiltwraig frwd yn ddiweddar sy'n gwybod llawer am fenywod a arferai gwiltio fel proffesiwn. Efallai fod llawer o bobl eraill â'r math hwn o wybodaeth am eu diddordebau a'u gweithgareddau heddiw.

Peidiwch â theimlo dan bwysau, ond os ydy'r syniadau hyn wedi'ch ysgogi, cysylltwch â info@womensarchivewales.org neu ffoniwch 07581 001 139. Fe'ch rhown mewn cysylltiad ag aelod o'r pwyllgor a all drafod hyn ymhellach â chi.

Jenny Sabine.

Dwy Gardi gwerth eu cofio

A wyddech chi mai Mary Roberts, Foelallt, Llanddewibrefi, Ceredigion oedd hen fam-gu Harriet Elizabeth Beecher Stowe, awdur y clasur gwrth-gaethwasiaeth *Uncle Tom's Cabin* (cyhoeddwyd yn 1852)? Ymfudodd Mary i America yn 1836. Mae plac er cof amdani ar fur Capel Bethesda yn y pentref.

Deuai Anna Lloyd-Jones, mam y pensaer bydenwog Frank Lloyd Wright a gynlluniodd Amgueddfa wych y Guggenheim yn Efrog Newydd ynghyd â nifer o adeiladau arloesol eraill yn America, o Rydowen, ger Llandysul yn wreiddiol. Mae'n debyg y byddai'n addurno ei ystafell wely ag engrafiadau o gadeirlannau Lloegr i feithrin ei diddordeb mewn pensaerniaeth.

Catrin Stevens



Trsglwyddo'r copiau mesitr! Yn y darlun: Kate Sullivan, Jenny Sabine, Catrin Edwards, Avril Jones (Yr Archif Sgrin a Sain Genedlaethol), Catrin Stevens ac Evana Lloyd a Mair Richards, dwy o'n cyfweleion lleol.

Yna, ddiwedd Gorffennaf cynhaliwyd sesiwn arbennig yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i drosglwyddo'r copiau meistr hollbwysig o'r cyfweiliadau, y ffotograffau, yr adysgrifau a metadata'r prosiect i ofal parhaol yr Archif Sgrin a Sain Genedlaethol. Cafwyd derbyniad brwdfrydig gan staff yr Archif Sgrin a Sain a Chasgliad y Werin Cymru ac edrychwn ymlaen at weld y defnyddiau a gasglwyd yn cael eu rhannu yn ehangach gyda'r cyhoedd ac academyddion ledled y byd. Unwaith eto roedd hi'n braf cael cwmni Kate Sullivan, ein Swyddog Maes yng nngogledd Cymru, ar yr achlysur hapus hwn.

Llwyddodd y ddau ddigwyddiad hyn i ddenu cryn sylw mewn papurau newydd cenedlaethol a lleol ac ar y cyfryngau, diolch i beiriant cyhoedduswydd Deian Creunant, Swyddog Cyhoedduswydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Ac yn sgil hyn ac yn annisgwyl daeth cais am lyfr yn seiliedig ar y prosiect oddi wrth Gwmni Cyhoeddi Amberley. Felly gwylwch y gofod hwn! Does dim modd rhoi taw ar y 'Lleisiau o Lawr y Ffatri'!

'Lleisiau o Lawr y Ffatri' – y newyddion diweddar

Do, daeth y prosiect llwyddiannus hwn, yn cofnodi profiadau menywod a fu'n gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru, i ben yn swyddogol haf eleni. Cynhaliwyd sesiwn ddifyr, a noddwyd gan Christine Chapman AC ac a fynychwyd gan nifer dda o gyn-'ferched' y ffatrioedd a chan Carys Howell, cynrychiolydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri, yn y Senedd ganol Gorffennaf. Pwrpas y digwyddiad hwn oedd lansio ffilm hyrwyddo'r prosiect ac argymhellaf i bob un nad oedd yn bresennol i fynd i'n gwefan www.lleisiaumenywodffatri.cymru i wyllo'r ffilm ddadlennol a hwyliog hon a gynhyrchwyd gan Catrin Edwards, Swyddog Maes y de-ddwyrain. Cafwyd ymateb gwresog iawn iddi. Braf hefyd oedd croesawu'n ôl atom Susan Roberts, Swyddog Maes y de-orllewin.

Menywod yn y Rhyfel Byd Cyntaf: Y Profiad Cymreig

Dych chi ddim yn gwybod beth sydd gyda chi nes i chi chwilio!




Dyma fam-gu fy ngŵr, Gertrude Fairclough yn 1917 neu 1918. Roedd yn briod â Rowland Fairclough, swyddog gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, a threuliodd ei bywyd priodasol cynnar yn yr Wyddgrug, sir y Fflint. Dydyd ni ddim yn gwybod llawer am Gertrude, ganwyd hi yn 1880 a bu farw o'r dycléin yn yr 1920au, ond yn ôl traddodiad teuluol treuliodd y rhyfel yn byw mewn gwesty, yn y Rhyl neu Ddeganwy efallai. Mae'n debyg nad oedd hyn yn anghyffredin ymhlith gwragedd swyddogion yn

yystod y Rhyfel. Digwyddodd hynny yn ystod yr Ail Ryfel Byd hefyd. Roeddem wedi anghofio am y ffotograff hwn tan wythnos ddiwetha'. Os dewch chi ar draws eitem gyffelyb, neu unrhyw beth am fenywod yn ystod y Rhyfel, cysylltwch â mi os gwelwch yn dda.

Rydym yn dal i gasglu enwau menywod ar gofebion rhyfel, ac rydym yn chwilio yn arbennig am enwau ar gofebion neu roliau er anrhydedd mewn ysgolion, capeli ac eglwysi. Yn fynych caiff y rhain eu symud neu eu colli wrth i gapel gau neu i'r adeilad newid ei ddefnydd. Enwau aelodau o'r capel neu ddisgyblion yr ysgol a wasanaethodd yn y Rhyfel yw llawer o'r enwau arnynt. Er enghraifft cofeb o Gapel Mynydd-bach, Abertawe yw hon, ac arni gwelir enw Eunice Thomas. Mae ffrâm ddu o gwmpas enwau'r tri aelod a fu farw.

Caroline Fairclough caroline_fairclough@yahoo.co.uk



60. EUNICE THOMAS.

Cwricwlwm newydd – ond i Gymru?

A fuoch chi'n gwyllo'r newyddion ym mis Medi? Efallai i chi weld neu glywed Elin Jones, un o aelodau pwyllgor yr Archif, yn datgan ei phryderon am adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Mae Elin wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i fynegi ei phryder am argymhellion *Dyfodol Llwyddiannus*, adroddiad yr Athro Donaldson, sydd i osod sylfeini cwricwlwm newydd i Gymru. Arweiniodd Elin y grŵp fu'n adrodd yn ôl i'r cyn Weinidog Addysg, Leighton Andrews, ar y Cwricwlwm Cymreig a hanes. Derbyniodd y Gweinidog Addysg presennol, Huw Lewis, eu hadroddiad a'i argymhellion yn eu crynswth, ond ni wél Elin lawer o ôl yr argymhellion hyn ar adroddiad yr Athro Donaldson.

Mae Elin yn canmol yr egwyddorion sylfaenol a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, gan nodi eu bod datblgu'n naturiol o gwricwlwm presennol ysgolion Cymru, ac yn gwbl gyson gyda rhai gwledydd blaengar ym myd addysg. Ond, meddai Elin "Gall fod yn sylfaen cwricwlwm i unrhyw un o'r gwledydd hynny: nid yw'n ceisio diffinio hyn sydd yn nodweddiadol am Gymru".

Mae hi'n pryderu hefyd nag yw'r Adroddiad a'i argymhellion yn ymateb i'r gwerthfawrogiad o'r Cwricwlwm Cymreig a'r dimensiwn Cymreig i'r Cwricwlwm a fynegwyd yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith ar yr Adroddiad.

Ac, fel un oedd yn gyfrifol am y cwricwlwm hanes yng Nghymru am flynyddoedd, mae'n pryderu am le hanes menywod hefyd yn y cwricwlwm yn y dyfodol. Mae'r cwricwlwm presennol yn gofyn i ysgolion dalu sylw priodol i fenywod a phlant mewn hanes, ac i holl amrywiaeth profiad a safbwynt. Prin iawn yw'r cyfeiriadau at hynny yn Adroddiad yr Athro Donaldson hefyd, meddai. Fe fydd manylion y cwricwlwm newydd yn cael eu penderfynu yn ystod y misoedd nesaf. Gobeithio bydd aelodau'r Archif yn barod i dynnu sylw at bwysigrwydd diogelu hanes amrywiol a chyfoethog holl bobl Cymru!

Llongyfarchiadau i Ysgol Penboyr!

Pleser mawr oedd gweld rhai o ddisgyblion Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Penboyr yn derbyn un o'r prif wobrau mewn seremoni arbennig yn Theatr Reardon Smith yr Amgueddfa Genedlaethol ym mis Gorffennaf. Cynhelir cystadleuaeth flynyddol gan Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig, ar gyfer gwaith da yn hanes Cymru a/neu hanes lleol, ac Ysgol Penboyr oedd un o'r ysgolion gyrhaeddodd y brig eleni.

Pleser ychwanegol oedd i Avril Rolph, ein Hysgrifennydd Gweinyddol, gyflwyno'r wobwr ar ran Archif Menywod Cymru ar y cyd â Grŵp Admiral. Mae Grŵp Admiral yn noddi'r gystadleuaeth bwysig hon yn hael iawn, ac mae'r Archif hefyd yn gwneud ei gorau i gefnogi, er mai elusen ydyn ni, ac nid busnes. Mae'r Archif ers blynyddoedd yn cynnig gwobr am waith da ar hanes menywod, ond yn anffodus, prin fu'r cynigion yn y maes hwn hyd yn hyn.

Eleni, serch hynny, cafwyd teilyngdod! Cyflawnodd Ysgol fach Penboyr gampwaith wrth olrhain datblygiad y Beibl o lawysgrif i lyfr print ac yna i'r Rhyngwrwyd heddiw, trwy hanesion yr Esgob William Morgan – yr ysgolhaig pwysig – a Mari Jones, y ferch ifanc oedd ar dân i brynu Beibl. Bu'r disgyblion ar deithiau i Lanfihangel ym Mhennant, Llanycil a'r Bala yn dilyn ôl ei thraed noeth. Roedd ôl ymchwil trwyadl ar y gwaith a gyflwynwyd i sylw beirniad y Fenter, a chyflwynon nhw eu canfyddiadau mewn amrywiol ffyrdd – gan gynnwys rhaglen radio, wedi ei hymchwilio, ei chyflwyno a'i chynhyrchu gan y disgyblion eu hun. Cafodd y rhaglen ei darlledu i'r gymuned leol hefyd. 'Deinamig' oedd gair y beirniad am y prosiect!

Cymerodd Ysgol Penboyr ran mewn digwyddiad arbennig yn y Senedd fis Medi, i ddatlu chwarter canrif y Fenter. Bydd yr Archif yn cynnig gwobr eto y flwyddyn nesaf am waith ar hanes menywod, felly beth am holi a ydy eich ysgol leol chi wedi ystyried rhoi cynnig ar y gystadleuaeth – ac os felly, faint o sylw a delir ganddynt i rôl a phrofiad menywod a merched? Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 31 Ionawr 2016, ac mae rhagor o fanylion ar y wefan: www.whsi.org.uk.

Elin Jones

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gallwch anfon eich cyfraniad yn ddwyieithog gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at:

newsletter@womensarchivewales.org

**Dyddiad derbyn defnydd i'r rhifyn nesaf:
Dydd Gwener 20fed Tachwedd 2015**

Os hoffech gopi print mawr o'r Cylchlythyr hwn, yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Caroline trwy'r cyfeiriad ebost uchod neu ar y ffôn 01873 890540.

Golygwych y cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens. Rosanne Reeves ac Elin Jones.